Cyflwyno Newid Hinsawdd: Ddoe, Heddiw, ac Yfory

Gweithgaredd 2.4: Cwestiynau lleol byd-eang

Oed: 8+

Nod

Crynhoi a chadarnhau'r hyn a ddysgodd y disgyblion drwy weithgareddau blaenorol.

Beth i'w wneud

Gofynnwch i'r dosbarth ffurfio grwpiau o 3-4, a thrafod bob cwestiwn isod yn eu grwpiau gan nodi unrhyw atebion. Nid yw'n bwysig ateb bob cwestiwn ar y cam hwn, ond dylid cymryd y cyfle i edrych ar bob cwestiwn.

Cymerwch adborth. A oes angen ychwanegu rhywbeth at un o'r ddwy dudalen siart?

- Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar bobl yn eich ardal leol?
- Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar bobl yn y DU?
- Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar bobl ledled y byd?
- Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar yr amgylchedd naturiol?
- Beth sy'n achosi newid hinsawdd?
- A yw'r achosion yr un fath i bobl ledled y byd?
- Beth yw'r atebion i newid hinsawdd?
- A yw'r atebion i newid hinsawdd yr un fath i bobl ledled y byd?
- Pan fo rhywbeth yn digwydd mewn un rhan o'r byd, a yw'n effeithio ar bobl mewn llefydd eraill?
- Sut mae newid hinsawdd yn fater byd-eang?

Hawlfraint © Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.